

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Llywodraeth Agored Open Government

Q13 Jocelyn Davies: What discussions has the First Minister had with Cabinet Ministers regarding open government? OAQ1416(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The Welsh Assembly Government has received more than 1,000 requests for information since 1 January 2005. I have had numerous discussions with Cabinet Ministers to ensure that our experiences of handling requests are shared and our approach is consistent.

C13 Jocelyn Davies: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Gweinidogion y Cabinet ynghylch llywodraeth agored? OAQ1416(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn mwy na 1,000 o geisiadau am wybodaeth ers 1 Ionawr 2005. Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda Gweinidogion y Cabinet er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu ein profiadau o ymdrin â cheisiadau a bod ein dull yn gyson.

Blaenoriaethau Economaidd ac Adfywio (Tor-faen) Economic and Regeneration Priorities (Torfaen)

Q14 Lynne Neagle: Will the First Minister provide an update on the Welsh Assembly Government's economic and regeneration priorities for Torfaen? OAQ1403(FM)

The First Minister: 'Wales: A Vibrant Economy' sets out the Assembly Government's agenda for helping to raise employment and earnings across Wales. As part of this agenda, the Assembly Government will continue to work with Torfaen County Borough Council to take forwards the regeneration of Torfaen.

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch blaenoriaethau economaidd ac adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Tor-faen? OAQ1403(FM)

Y Prif Weinidog: Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn pennu agenda Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer helpu i gynyddu cyflogaeth ac enillion ledled Cymru. Fel rhan o'r agenda hon, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen i ddatblygu'r gwaith o adfywio Tor-faen.

Gordewdra Obesity

Q15 Val Lloyd: Can the First Minister give details of what the Welsh Assembly Government is doing to tackle obesity in Wales? OAQ1420(FM)

C15 Val Lloyd: A all y Prif Weinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru? OAQ1420(FM)

The First Minister: Tackling obesity is a priority for Assembly action. It forms a key theme in strategic documents, 'Food and Wellbeing in Wales' and 'Climbing Higher'. Following consultation, a food and fitness action plan for children and young people, which has identified gaps in current provision, will be launched in June.

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael â gordewdra yn flaenoriaeth i'r Cynulliad. Dyma un o themâu allweddol y dogfennau strategol, 'Bwyd a Lles yng Nghymru' a 'Dringo'n Uwch'. Yn dilyn ymgynghoriad, caiff cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc, sydd wedi nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, ei lansio ym mis Mehefin.